# Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: £250,000 i £5miliwn

# Ariannu – Grantiau o £250,000 i £5miliwn (gan gynnwys menter treftadaeth)

**Pwysig**

Mae grantiau'r Loteri Genedlaethol ar gyfer treftadaeth ar gau i geisiadau newydd tan 2021.
Darllenwch fwy am ein rhaglenni ariannu

## Pwy all ymgeisio

Gallwch ymgeisio am grant o £250,000 a £5miliwn os ydych yn:

- sefydliad di-elw
- partneriaeth dan arweiniad sefydliad di-elw

---

## Ein cyfnodau grant

Mae grantiau dros £250,000 yn cynnwys y camau canlynol:

- cam datblygu dyma pryd y byddwch yn mireinio ac yn datblygu eich prosiect ymhellach. Sylwch nad yw dyfarniad grant cyfnod datblygu yn gwarantu y byddwch yn derbyn dyfarniad grant cyfnod cyflawni.
- cam cyflawni os caiff ei ddyfarnu, dyma pryd y byddwch yn rhoi eich cynlluniau datblygu ar waith er mwyn cyflawni eich prosiect

---

## Sut i ymgeisio

Dilynwch y camau isod i ddysgu beth sy'n digwydd wrth ymgeisio am grantiau rhwng £250,000 a £5miliwn.

1. **Darllenwch y dudalen yma**

   Dilynwch y camau hyn a darllenwch y dudalen gyfan. Yn gyntaf, bydd angen i chi:

   - darllen am beth rydym yn ei ariannu
   - dysgu am canlyniadau

2. **Creu cyfrif**

   Er mwyn ymgeisio bydd angen i chi ddefnyddio ein porth ymgeisio, os nad oes gennych gyfrif eto, bydd angen i chi:

   - creu cyfrif ar y porth ymgeisio

3. **Cyflwyno Datganiad o Ddiddodeb (EOI)**

   Gofynnwn i bob ymgeisydd am grant dros £250,000 i gwblhau ffurflen Datganiad o Ddiddordeb byr (EOI).

   Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a darparwch i benderfynu a ydych am eich gwahodd i gyflwyno cais cyfnod datblygu ai peidio.

   Ein nod yw ymateb i'ch Datganiad o Ddiddordeb o fewn 20 diwrnod gwaith i'w dderbyn.

   Os byddwn yn penderfynu eich gwahodd i wneud cais, byddwn yn cysylltu â chi i drafod y camau nesaf. Os nad ydym yn eich gwahodd i wneud cais byddwn yn egluro ein rheswm.

   - Cwestiynau Datganiad o Ddiddordeb
     Rhagolwg o'r cwestiynau sydd yn y Datganiad o Ddiddordeb.

4. **Penderfynu ar bryd i ymgeisio**

   Ar gyfer grantiau rhwng £250,000 a £5m, pennir dyddiadau cau ar gyfer gwneud cais ymlaen llaw er mwyn egluro pa bryd y gwneir penderfyniadau ariannu.

   Os cewch eich gwahodd i gyflwyno cais cam datblygu, dylech ei gyflwyno drwy ein porth ymgeisio ar-lein erbyn:

   - 19 Tachwedd 2019, hanner dydd (12pm)  i dderbyn penderfyniad erbyn diwedd Mawrth 2020
   - 2 Mawrth 2020, hanner dydd (12pm)  i dderbyn penderfyniad erbyn diwedd Mehefin 2020
   - 1 Mehefin 2020, hanner dydd (12pm)  i dderbyn penderfyniad erbyn diwedd Medi 2020
   - 1 Medi 2020, hanner dydd (12pm)  i dderbyn penderfyniad erbyn diwedd Rhagfyr 2020

- 23 Tachwedd 2020, hanner dydd (12pm)  i dderbyn penderfyniad erbyn diwedd Mawrth 2021

Sicrhewch bod dyddiad dechrau eich prosiect yn ddyddiad hwyrach na ddyddiad y penderfyniad.

5. **Cynlluniwch eich cyfraniad ariannol**

   Mae'n rhaid i chi gyfrannu o leiaf 5% o'ch costau prosiect am grantiau hyd at £1miliwn ac o leiaf 10% am grantiau o £1miliwn neu fwy.

6. **Darllenwch am fenter treftadaeth**

   Mae rhai prosiectau treftadaeth yn ceisio sicrhau twf economaidd drwy fuddsoddi mewn treftadaeth. Rydym yn galw'r rhain yn brosiectau 'menter treftadaeth'.

   - Canllawiau ymgeisio ar gyfer mentrau treftadaeth

7. **Ymgeisio am grant**

   Os ydych wedi cael eich gwahodd i gyflwyno cais, byddwn yn asesu eich cais o fewn 12 wythnos ar ôl i chi ei gyflwyno. Ar ôl i ni asesu eich prosiect, caiff ei neilltuo i gyfarfod pwyllgor chwarterol ar gyfer penderfyniad ffurfiol.

   **Dogfennau i'ch cynorthwyo i ymgeisio**

   - Canllawiau ymgeisio £250,000 i £5miliwn
     Gwybodaeth a chyngor ar sut i ysgrifennu cynnig cryf.
   - Nodiadau cymorth i ymgeisio
     Gwybodaeth ddefnyddiol i'ch helpu i leni ffurflen gais ar-lein.
   - Telerau safonol ar gyfer cyfnod datblygu'r grantiau
   - Telerau safonol ar gyfer darparu'r grantiau
   - Canllawiau arferion da

## I fwrw ati gyda'ch cais

Menwgofnodwch i'n porth ymgeisio

Ewch yn ôl i frig y dudalen

**Yn yr adran yma**

- Grantiau o £100,000 to £250,000
- Grantiau o £5miliwn a mwy